# Diweddariad ar y rhaglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 23 Mehefin 2015

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Archwiliad gwella ac asesu 2015-16**

**Archwiliad cynllun gwella**

Archwiliad cyflawni dyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella.

Amserlen – Cyflwynwyd yr adroddiad ym mis Mai 2015.

**Archwiliad asesiad o berfformiad**

Archwiliad cyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.

Amserlen – Adroddiad i'w gyflwyno ym mis Tachwedd 2015.

**Adolygiad rheoli ariannol**

Gwaith ychwanegol ar drefniadau rheoli ariannol yn dilyn ein hadolygiad o 2014-15, ac edrych i'r dyfodol at bennu cyllideb 2016-17 a chynigion ar gyfer arbedion. Bydd yn canolbwyntio hefyd ar y sefyllfa ynglŷn â chronfeydd wrth gefn, polisi a defnydd o gronfeydd wrth gefn.

Amserlen – mis Mehefin i fis Medi 2015

**Adolygiad llywodraethu**

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar feysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn adroddiad yr Asesiad Corfforaethol.

Amserlen – mis Gorffennaf 2015 i fis Mawrth 2016

**Adolygiad rheoli perfformiad**

Astudiaeth ar draws gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad gan AGGCC.

Amserlen – mis Ebrill i fis Hydref 2015
Mae'r gwaith maes wedi'i drefnu ar gyfer mis Awst - Medi 2015.

**Adolygiad(au) a benderfynwyd yn lleol**

Gwaith dilynol ar agweddau y nodwyd bod angen eu gwella yn adroddiad yr Asesiad Corfforaethol.

Amserlen – mis Gorffennaf 2015 i fis Mawrth 2016. Bydd hyn yn deillio o'r Asesiad Corfforaethol.

**Adroddiad Gwella Blynyddol**

Crynodeb ac asesiad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill.

Amserlen – mis Rhagfyr 2015 i fis Mawrth 2016

## Astudiaethau Llywodraeth Leol 2015-16

**Agwedd strategol cynghorau at gynhyrchu incwm a chodi tâl**

O dan y thema 'cyflawni â llai', bydd yr astudiaeth hon yn cynnwys archwiliad o agwedd strategol cynghorau at godi tâl, y broses gymeradwyo ar gyfer pennu ac adolygu taliadau ac effaith codi tâl ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.

**Ariannu gwasanaethau trydydd sector gan Gynghorau**

Hefyd o dan y thema 'cyflawni â llai', bydd yr astudiaeth yn:

- archwilio lefel y buddsoddiad yng ngwasanaethau'r sector gwirfoddol er mwyn meincnodi'r canfyddiadau yn erbyn asesiadau blaenorol;
- adolygu'r mesurau a ddefnyddir i asesu effeithiolrwydd ariannu mewn ardal 'tracer'; ac
- adolygu'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn canfod a yw gwasanaethau'r trydydd sector yn cael eu hariannu mewn ffordd sy'n dilyn egwyddorion llywodraethu da.

**Effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol lleol**

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol ac effaith gwaith y partneriaethau wrth sicrhau gwelliannau yn eu cymunedau.

Amserlen y cwbl i'w gadarnhau.

## Archwiliad gwella ac asesu 2014-15

**Asesiad Corfforaethol 2014-15**

Mae'r asesiad hwn wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad ar ffurf draft, gyda'r bwriad o'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015. Mae adborth wedi'i roi i'r Tîm Rheoli Uwch, aelodau'r Cabinet a Chabinet yr Wrthblaid.

**Adolygiad o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y Cyd**

Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad yn derfynol ac wedi'i gyhoeddi. Cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol adborth ar 31 Mawrth.

**Asesiad Budd-dal Tai**

Mae'r adolygiad yn edrych ar reoli, sylw i gwsmeriaid, prosesau penderfynu a throsolwg o arian Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a dadansoddiad bwrdd gwaith o ddogfennaeth allweddol ydyw yn bennaf. Bydd yn arwain at grynodeb genedlaethol fer yn diweddaru ein datganiad sefyllfa ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn 2013-14 a chrynodeb fer i'w chynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar berfformiad cyfredol pob cyngor. Ar Ynys Môn, bydd hwn yn cael ei gynnwys yn adroddiad yr asesiad corfforaethol.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol 2014-15

**Effaith y Diwygiad Lles ar dai cymdeithasol**

Cyhoeddwyd ar 8 Ionawr 2015. Mae'r adroddiad ar gael yn https://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/rheoli-effaith-diwygiadau-lles-ar-denantiaid-tai-cymdeithasol-yng-nghymru

**Trefniadau diogelu**

Adroddiad i'w gyhoeddi ddiwedd mis Mehefin 2015.

**Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru**

Cyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2015. Mae'r adroddiad ar gael yn http://www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/cydnerthedd-ariannol-cynghorau-yng-nghymru

**Annibyniaeth Pobl Hŷn**

Dylai'r gwaith maes fod wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2015 os yw'r cynghorau yn darparu'r wybodaeth sy'n weddill. Y dyddiad cyhoeddi am y tro yw mis Gorffennaf/Awst 2015.

**Cyflawni â llai – gwasanaethau hamdden**

Dylai'r gwaith maes fod wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2015 os yw'r cynghorau'n darparu'r wybodaeth sy'n weddill. Y dyddiad cyhoeddi am y tro yw mis Awst/Medi 2015

## Arfer da

Yn unol ag ymrwymiad yr Archwilydd Cyffredinol i nodi a rhannu arfer da, bydd yn parhau i gynnal seminarau dysgu ar y cyd, nodi astudiaethau achos perthnasol a chanolbwyntio ar nodi a hybu arfer effeithiol. Caiff cyrff cyhoeddus wybod am y digwyddiadau ymlaen llaw a'u gwahodd iddynt.

Cewch weld pa ddigwyddiadau sydd i ddod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn https://www.wao.gov.uk/cy/forthcoming-events/Shared-Learning-Seminar

## Rheoleiddwyr eraill

Gwaith ar y cyd gydag AGGCC ar draws gogledd Cymru ar feincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad.

Nid oes gan Estyn gynlluniau i adolygu Ynys Môn. Fodd bynnag, mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig o'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion (GwE) ar draws gogledd Cymru.

## Adroddiadau eraill

Mae'r Archwilydd Cydffredinol yn cynnal astudiaeth ar reoli llifogydd ac erydu arfordirol fel rhan o'i raglen flynyddol o astudiaethau gwerth am arian. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y cwestiwn cyffredinol: A yw Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn gwneud y cynnydd sydd ei angen arnynt i reoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol? I ateb y cwestiwn hwnnw, rydyn ni'n gofyn cyfres o is-gwestiynau i brofi: a yw dull strategol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol yn addas ar gyfer y dyfodol; ac a yw Llywodraeth Cymru yn rheoli ei rhaglen i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithiol. Bydd y gwaith yn cynnwys cwblhau holiadur ac arolwg manwl yn bennaf. Dyddiad yr adroddiad i'w gadarnhau.